# BWRDD CYFIAWNDER TROSEDDOL CYMRU: ADRODDIAD BLYNYDDOL 2022-2023

Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru

Criminal Justice in Wales

Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru
Criminal Justice in Wales


**Rhagair** .......... 2

**Cefndir - Pwy ydym ni a beth rydym ni'n ei wneud?** .......... 4

**Cyflawni Ein Blaenoriaethau** .......... 5

**Diwallu anghenion dioddefwyr a thystion** .......... 6

**Diwallu anghenion pobl sydd wedi troseddu** .......... 8

**Ymyrraeth ac Atal Cynnar** .......... 11

**Dull gweithredu un gwasanaeth cyhoeddus tuag at Gydraddoldeb Hil** .......... 13

**Ein huchelgeisiau ar gyfer 2023-2024** .......... 16

Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru
Criminal Justice in Wales

## Rhagair



Mae gennym weledigaeth glir ar gyfer Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru, sef darparu system cyfiawnder troseddol deg, effeithiol ac effeithlon.

Felly mae'n bleser gen i gyhoeddi ein hail adroddiad blynyddol sy'n esbonio'r holl waith rydym wedi bod yn ei wneud gyda'n gilydd dros y flwyddyn ddiwethaf i wella canlyniadau cyfiawnder troseddol i bawb sy'n dod i gysylltiad â'r system, boed hynny fel gweithiwr, dioddefwr, tyst neu unigolyn sydd wedi troseddu. Hoffwn dynnu sylw arbennig at ambell i gyflawniad y llynedd gan eu bod yn enghraifft wych o sut, pan fyddwn yn cydweithio i fynd i'r afael â heriau cyffredin a chymhleth, y gallwn gyflawni mwy.

Ar ôl i'r byd brotestio yn erbyn hiliaeth a mynnu newid yn 2020, gwnaethom symud yn gyflym ac ymroi i ymateb un gwasanaeth cyhoeddus er mwyn hybu cydraddoldeb hiliol. Arweiniodd ein hymroddiad at gyhoeddi Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol a sefydlu Panel Goruchwylio a Chynghori Annibynnol ar gyfer Cydraddoldeb Hiliol yn y System Cyfiawnder Troseddol. Mae ein cyfuniad o weledigaeth ac ymroddiad clir, ochr yn ochr â mwy o dryloywder ac atebolrwydd gyda phobl o gefndiroedd ethnig leiafrifol, yn ein gwneud yn hyderus y byddwn yn cyflawni'r newid sydd ei angen.

Rwyf hefyd yn falch o'r gwaith mae'r Bwrdd wedi ei wneud i greu darlun o'n perfformiad a'n hymateb i dreisio yng Nghymru. Mae cael darlun o'n gweithgarwch sy'n cael ei ddadansoddi yn erbyn ein data perfformiad mewn cysylltiad â threisio yn golygu y gallwn wella'r ffordd rydym yn adnabod a monitro'r hyn sy'n gweithio ac yn gwneud gwahaniaeth i oroeswyr treisio, yn lleol ac yn genedlaethol. Mae'r dull hwn o weithio yn rhoi'r sail i Gymru gydweithio a manteisio ar y cyfleoedd a gynigir i ni trwy Ymgyrch Soteria, rhan o raglen Llywodraeth y DU i drawsnewid yr ymateb i dreisio, sy'n golygu bod pob heddlu yng Nghymru a Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gweithio i gyflawni'r un amcanion academaidd uchelgeisiol er mwyn gwella'r ymateb i dreisio.

Hoffwn gydnabod llwyddiant ein safleoedd cyflwyno tystiolaeth o bell. Gyda Llywodraeth Cymru, rydym wedi agor 13 safle newydd yn benodol ar gyfer goroeswyr cam-drin domestig a cham-drin rhywiol, a chawsant eu defnyddio gan dros 200 o bobl eleni. Mae eu llwyddiant wedi arwain at enwebiad am wobr arloesi gan y Ganolfan Arloesi ym maes Cyfiawnder.

Rwyf wedi ystyried agwedd y Bwrdd tuag at gyflawni ac wedi gweld sut mae mabwysiadu set o egwyddorion craidd wedi gwneud gwahaniaeth allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys blaenoriaethau cyfunol a rhai a rennir, cynllun pwrpasol, arfer seiliedig ar dystiolaeth, arweinyddiaeth gref, llywodraethu cadarn a Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol effeithiol.

Hoffwn orffen trwy ddiolch i'r holl bobl weithgar yn y maes cyfiawnder troseddol, y gwasanaethau cyhoeddus ehangach a sefydliadau trydydd sector sydd wedi dod at ei gilydd yn gyson ac yn frwd i wella canlyniadau i bobl sy'n dod i gysylltiad â'n system cyfiawnder

troseddol. Heboch chi, ni fyddai dim o'r cyflawniadau a amlinellir yn yr adroddiad hwn wedi bod yn bosibl.

Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda phob un ohonoch chi wrth i ni gyflawni ein huchelgais ar gyfer 2023-2024.

**Amy Rees**
**Cadeirydd Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru**
**Rheolwr Cyffredinol Prif Weithredwr Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi**


## Cefndir - Pwy ydym ni a beth rydym ni'n ei wneud?

Mae Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru yn dod â phartneriaid cyfiawnder troseddol at ei gilydd, gan gynnwys: Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (HMPPS), Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi (HMCTS), y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, Gwasanaethau Heddlu yng Nghymru, Prif Gwnstabliaid yng Nghymru, Comisiynwyr Heddlu a Throsedd yng Nghymru, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, cyrff y Sector Gwirfoddol a'r Comisiynydd Dioddefwyr.

Diben ein gwaith yw lleihau troseddau a gwneud cymunedau yn fwy diogel drwy gyflawni gwell canlyniadau a phrofiadau i’r rhai hynny sy’n dod i gysylltiad â’r System Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru p’un ai fel dioddefwyr, tystion neu droseddwyr.

## Cyflawni Ein Blaenoriaethau

Gwnaethom fyfyrio ar ein cyflawniadau yn 2021-2022 (Adroddiad Blynyddol Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru) a chytuno bod amrywiaeth o ffactorau yn ysgogi llwyddiant. Mae'r rhain yn cynnwys ein strwythur llywodraethu cadarn, cydgysylltu effeithiol a gwaith partner cadarn. Un ffactor a wnaeth gyfraniad sylweddol at yr hyn a gyflawnwyd gennym oedd y ffaith ein bod wedi canolbwyntio ar ychydig o faterion cyffredin er mwyn creu newid cadarnhaol i bobl sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol. Rydym wedi defnyddio'r egwyddorion sylfaenol hyn eleni i gytuno ar ein rhaglen waith ar gyfer 2022-2023.




Mae'r adroddiad canlynol yn rhoi crynodeb o'r hyn mae'r Bwrdd wedi ei gyflawni'r llynedd o dan bob un o'r blaenoriaethau hyn.

## Diwallu anghenion dioddefwyr a thystion

Er mwyn gwella ein hymateb, ac yn y pen draw brofiadau dioddefwyr a thystion ar draws y system cyfiawnder troseddol, cytunodd y Bwrdd y byddai'n canolbwyntio ar y pedwar maes allweddol canlynol ledled Cymru.

Cynyddu defnydd o safleoedd rhoi tystiolaeth o bell yng Nghymru

- Rydym wedi agor mwy o safleoedd ac mae mwy o ddioddefwyr a thystion yn eu defnyddio.

  Agorwyd 13 safle rhoi tystiolaeth o bell newydd i ddioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, a thrais rhywiol (VAWDASV) ledled Cymru. Mae'r rhai wedi gwella'r ystod o fesurau arbennig sydd ar gael i ddioddefwyr VAWDASV yng Nghymru yn sylweddol ac wedi gwella mynediad pobl at gyfiawnder. Er mwyn datblygu defnydd effeithiol o'r safleoedd hyn ymhellach, mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF yn datblygu proses amserlen awtomataidd a fydd yn weithredol yn y gwanwyn yn 2023.
  Defnyddiodd 202 o oroeswyr VAWDASV yng Nghymru y safleoedd yn ystod 2022
  Defnyddiodd 175 o bobl y safleoedd i roi tystiolaeth mewn llys troseddol a defnyddiodd 27 o bobl y safleoedd yn ystod achosion llys teulu.

- Mae goroeswyr yn dweud wrthym fod rhoi tystiolaeth yn y ffordd yma yn llesol iddynt.

  Dywedodd pobl a ddefnyddiodd y safleoedd wrthym [1]eu bod yn teimlo'n llai nerfus ac yn fwy hyderus yn rhoi tystiolaeth trwy gyfrwng y safleoedd o bell. Dywedodd llawer o oroeswyr wrthym hefyd bod y ffaith bod y safle o bell mewn lleoliad y tu allan i'r llys yn golygu na fyddent yn dod wyneb yn wyneb â'r troseddwr na theulu neu ffrindiau'r troseddwr ar ddiwrnod y treial. Dyma'r prif reswm pam y gwnaethant ofyn am y ddarpariaeth hon.

- Mae gennym eiriolwyr mesurau arbennig pwrpasol yng Nghymru.

  Roedd y cynllun peilot eiriolwyr mesurau arbennig yn cael ei ariannu gan y Swyddfa Gartref a chyfrannodd pob un o heddluoedd Cymru ato. Daeth yr eiriolwyr yn adnodd pwrpasol yn yr unedau gofal tystion i sicrhau bod pob tyst agored i niwed a oedd yn mynd i'r llys i roi tystiolaeth yn ymwybodol o'i hawl a amlinellir yn y Cod Dioddefwyr i wneud cais am fesurau arbennig os oedd yn dymuno gwneud hynny. Yn dilyn trafodaethau, byddai eiriolwyr yn cwblhau a chyflwyno ceisiadau mesurau arbennig ar ran tystion agored i niwed, lle'r oedd yn briodol. Mae'r cynllun peilot wedi bod yn llwyddiannus iawn ac mae'r eiriolwyr wedi cyfrannu at nifer y goroeswyr cam-drin domestig a thrais rhywiol yn rhoi tystiolaeth trwy'r safleoedd o bell yng Nghymru. Gofynnodd 80% o dystion a siaradodd ag eiriolwyr yn Ne Cymru a Gwent am gael gwneud cais am fesurau arbennig.

- Mae'r safleoedd wedi cael eu henwebu ar gyfer Gwobr Arloesedd.

[1]Dywedodd 35 o oroeswyr a lenwodd ffurflenni adborth bod y ffaith nad oeddent yn yr un lleoliad a'r tramgwyddwr yn llesol iddynt ac yn gwneud iddynt deimlo'n fwy diogel.

Mae llwyddiant y safleoedd wedi cael cydnabyddiaeth annibynnol gan Y Ganolfan Arloesi ym maes Cyfiawner ac mae'r safleoedd wedi cael eu henwebu ar gyfer gwobr arloesedd ochr yn ochr â gwaith ardderchog arall. Disgwylir y canlyniad yn ystod gwanwyn 2023.

## Deall a gwella ein hymateb i oroeswyr treisio yng Nghymru

- Gwnaethom greu darlun Cymru gyfan o'n hymateb i dreisio
  Nod y Bwrdd oedd deall yr ymateb i ddioddefwyr treisio ledled Cymru. Gan hynny, gwnaethom ddod â'r Cynlluniau Gweithredu Cenedlaethol ar y Cyd yng Nghymru at ei gilydd mewn un man. Mae hyn wedi galluogi'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron i adnabod, rhannu a mabwysiadu arfer da ar draws Cymru er budd goroeswyr treisio. Ledled Cymru, darparwyd hyfforddiant trawma treisio arbenigol i bob swyddog arbenigol a chyfreithiwr Gwasanaeth Erlyn y Goron, mae paneli craffu wedi cael eu sefydlu'n gyson, ac mae proses yn cael ai harchwilio i gynnig cefnogaeth 'eithrio' gan Gynghorydd Annibynnol ar Drais Rhywiol i oroeswyr treisio er mwyn gwella cefnogaeth. Yn ogystal, mae Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar y Cyd Cymru yn tynnu sylw at yr heriau cyfunol y gall yr Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron ganolbwyntio arnynt a'u datrys gyda'i gilydd. Ymysg y rhain mae ffocws parhaus gan yr heddlu ar geisio cyngor yn gynnar ledled Cymru. Cafodd y gwaith o gasglu cynlluniau gweithredu cenedlaethol ar y cyd at ei gilydd ei gydnabod fel arfer da gan Wasanaeth Erlyn y Goron yn ganolog a thîm Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar y Cyd Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, sy'n gweithio yn awr i lunio templed adrodd cenedlaethol ar gyfer Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r Heddlu, i gyd-fynd â lansiad y Modelau Gweithredu Cenedlaethol newydd dan Ymgyrch Soteria o fis Mehefin 2023.

- Rydym yn defnyddio'r dangosfwrdd treisio oedolion yn effeithiol i fonitro a dangos gwelliant.
  Mewn partneriaeth â'r tim Insights yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder, rydym wedi defnyddio'r data maent yn eu casglu a'u cyhoeddi ar gyfer treisio oedolion ar lefel lleol a chenedlaethol. Rydym wedi defnyddio'r data i ddadansoddi a oes mwy o oroeswyr treisio yn hysbysu'r Heddlu, amseroldeb ac a ydym yn cyflawni canlyniadau mwy effeithiol. Yn gadarnhaol, mae achosion treisio yng Nghymru'n cael eu clywed 100 diwrnod yn gynharach ar gyfartaledd na'r amser cyfartalog ar draws Cymru a Lloegr. Mae hefyd wedi ein helpu ni i ddeall ble mae angen i ni ganolbwyntio ein hymdrechion. Gwnaethom nodi bod lefelau ymddieithrio gan ddioddefwyr cyn cyhuddo yn dal i fod yn uchel, ac mae'r Heddlu'n gweithio gyda'r sector cymorth arbenigol i gael gwell dealltwriaeth o'r rheswm am hyn.

- Rydym wedi datblygu dangosfwrdd treisio plant er mwyn deall ac ymateb yn effeithiol.
  Gyda'n gilydd, gwnaethom gytuno y dylem ganolbwyntio ar ein hymateb i holl ddioddefwyr treisio yng Nghymru. Gan hynny, at ddibenion mewnol, rydym wedi

datblygu dangosfwrdd treisio plant, gan gynnwys pobl sy'n hysbysu'r heddlu am droseddau treisio plant hanesyddol. Bydd y dangosfwrdd yn ein helpu ni i ddeall cyffredinrwydd y drosedd erchyll hon yn well a sicrhau bod yr ymateb a'r gwasanaethau cywir ar waith i helpu dioddefwyr i wella ar ôl treisio.

### Sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r Cod Dioddefwyr

- Mae gennym ni'r dulliau i ddeall, monitro a gwella profiadau dioddefwyr ar draws y system.

  Mae'r Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol (y Byrddau Lleol) ledled Cymru yn archwilio nifer o achosion gyda dioddefwyr gwahanol fathau o droseddau i wirio a yw eu hawliau fel dioddefwyr wedi cael eu bodloni, yn unol â'r Cod Dioddefwyr. Mae hyn yn golygu y gall y Byrddau Lleol weld a yw hawliau dioddefwyr yn cael eu bodloni'n gyson a chanfod ble mae angen gwneud gwaith pellach. Canfu archwiliad cyntaf De Cymru a Gwent bod dioddefwyr yn derbyn cymorth yn fwy prydlon. Derbyniodd 90% o ddioddefwyr newyddion ar ôl y gwrandawiad cyntaf ac mae mwy o geisiadau mesurau arbennig yn cael eu cyflwyno, gan gynnwys i ddioddefwyr treisio. Mae'r broses hon yn ddull y gall y Byrddau Lleol a'r Bwrdd ei ddefnyddio i glywed lleisiau dioddefwyr a deall y materion sydd o bwys iddyn nhw ar draws y system. Mae'r dystiolaeth yn cael ei defnyddio i lywio ymateb y Bwrdd i ddioddefwyr yn lleol ac yn genedlaethol.

### Sicrhau cyfiawnder i fwy o ddioddefwyr cam-drin domestig

- Rydym yn deall y rhesymau pam mae goroeswyr cam-drin domestig yn ymddieithrio oddi wrth y system cyfiawnder troseddol yn well.

  Gwnaethom ddilyn siwrnai dioddefwr cam-drin domestig trwy'r broses cyfiawnder troseddol er mwyn deall eu profiadau a pham efallai y byddant yn ymddieithrio ar wahanol adegau. Gwnaed a derbyniwyd nifer o argymhellion. Roedd y rhain yn cynnwys sicrhau bod y cymorth iawn yn cael ei gynnig i oroeswyr ar yr adeg iawn, rhannu newyddion yn rheolaidd gyda goroeswyr a'u cefnogi nhw i ddeall mwy am y broses cyfiawnder troseddol a'r camau nesaf. Mae'r dull hwn yn cael ei fabwysiadu ledled Cymru i sicrhau bod goroeswyr yn derbyn ymateb effeithiol. Bydd y Byrddau Lleol a'r Bwrdd yn parhau i ddefnyddio data perfformiad cam-drin domestig i fonitro a yw'r camau gweithredu sy'n cael eu cymryd yn cael effaith go iawn ar oroeswyr cam-drin domestig.

## Diwallu anghenion pobl sydd wedi troseddu

Cytunodd y Bwrdd i ganolbwyntio ar y tri maes canlynol er mwyn ychwanegu mwy o werth.

### Cyflawni'r 'Fframwaith i gefnogi newid positif ar gyfer y rheini sydd mewn perygl o droseddu yng Nghymru'

- Rydym wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl agored i niwed sydd wedi troseddu yng Nghymru

Daw'r fframwaith i ben ym mis Mawrth 2023 ond nid yw hynny'n golygu nad ydym yn parhau i weithio gyda'r grwpiau o bobl agored i niwed hyn. Mae'r tabl isod yn amlinellu sut a ble y bydd gwaith yn parhau. Bydd rhywfaint o'r gwaith hwn yn mynd yn rhan o fusnes arferol, ac mae rhywfaint ohono'n rhan o raglenni gwaith ehangach yn awr. Mae hyn yn ddatblygiad o Adroddiad Blynyddol 2021-2022 ac mae'n rhoi rhai esiamplau allweddol o'r gwaith a wnaed a'r hyn a gyflawnwyd gyda'r chwe grŵp penodol o bobl agored i niwed.

| | |
|---|---|
| **Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)**<br>• Dealltwriaeth glir o risg ac angen<br>• Darparu gwasanaethau gyda'r nod o atal VAWDASV<br>• Rhannu dealltwriaeth o 'yr hyn sy'n gweithio'<br><br>**Gwaith yn y dyfodol:**<br>**Bydd gwaith i ddeall risg, darpariaeth a'r 'hyn sy'n gweithio' i gyflawnwyr VAWDASV yn cael ei ysgogi o fewn ffrwd gwaith Mynd i'r Afael â Chyflawnwyr Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Llywodraeth Cymru.**<br>**Parhau i weithio gyda phartneriaid cyfiawnder troseddol i sicrhau ymateb cydweithredol.** | **Menywod yn y System Cyfiawnder Troseddol**<br>• Lleihau cymhlethdod<br>• Lleihau galw ar wasanaethau ymyrraeth ac atal cynnar i bobl cyn iddynt ddod i gysylltiad â niwed a'r system cyfiawnder troseddol.<br>• Deall anghenion a mannau gwan penodol yn well<br>• Sicrhau bod dulliau ar waith<br><br>**Gwaith yn y dyfodol:**<br>**Mae'r amcanion yn cael eu cyflawni'n rhan o'r rhaglen newid Glasbrint Cyfiawnder Menywod[2] sy'n defnyddio ymateb system gyfan wrth ymdrin â menywod sy'n mynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol.** |
| **Cyn aelodau o'r Lluoedd Arfog**<br>• Gwella adnabod a chofnodi<br>• Gwella dealltwriaeth o anghenion a phrofiadau<br>• Atal cyn aelodau o'r Lluoedd Arfog sy'n dod allan o'r gwasanaethau arfog rhag dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol.<br><br>**Gwaith sy'n rhan o fusnes arferol**<br>**Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella systemau er mwyn adnabod anghenion cyn aelodau o'r lluoedd arfog yn well a theilwra cymorth ac anghenion fel iechyd meddwl, tai a mentora arbenigol.**<br>**Mae hyrwyddwyr ar waith yn yr Heddlu, mewn carchardai a lleoliadau prawf.** | **Grŵp Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol**<br>• Wedi ei gynnwys yn llawn ym Mlaenoriaeth Cydraddoldeb Hiliol Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru<br>• Mae gwaith a gyflawnwyd o fewn ffrydiau gwaith Rheoli Integredig Troseddwyr wedi cyfrannu at y gwaith presennol mewn cysylltiad â'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hil Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru ehangach.<br>• Bydd adroddiad ar y gwaith hwn yn cael ei gyflwyno i Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru.<br><br>**Gwaith yn y dyfodol:** |

[2]Cafodd y Glasbrint ei ail frandio yn ystod 2022.

| | |
|---|---|
| **Addewid wedi'i llofnodi gan gomisiynwyr yr heddlu a throsedd i sicrhau bod pobl sydd yn gwasanaethu neu wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog yn cael eu trin yn deg ac nad ydynt dan unrhyw anfantais yn y system cyfiawnder troseddol.** | **Mae'r amcanion uchod wedi cael eu cynnwys yn y [Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol]()** |
| **Teuluoedd a phobl eraill sy'n bwysig i droseddwyr**<br>• Gwerthuso'r effaith, darpariaeth a chymorth a gynigir i deuluoedd.<br>• Gwaith partner i sicrhau bod plant troseddwyr yn cael eu nodi adeg arést, dedfrydu a charcharu.<br><br>**Gwaith yn y dyfodol:**<br>**Mae'r grŵp traws-asiantaeth Family Connect wedi cael ei sefydlu i ddwyn arweinyddion ynghyd ar gyfer cysylltiadau teulu a phobl arwyddocaol eraill ar draws y system cyfiawnder yng Nghymru.**<br>**Bydd Family Connect yn parhau i rannu arfer gorau a gwaith ar y cyd i gefnogi teuluoedd pobl sydd wedi troseddu. Bydd hyn yn cael ei fonitro trwy drefniadau amlasiantaeth.** | **Oedolion ifanc a phobl sy'n gadael gofal**<br>• Ymchwil a dadansoddiad o'r data rydym yn ei rannu<br>• Gwella gwaith adnabod a chofnodi<br>• Sicrhau cyfle i rannu profiadau o fod mewn gofal yn ddiogel<br><br>**Gwaith yn y dyfodol:**<br>**Bydd gwaith i ddatblygu dull system gyfan i gefnogi oedolion ifanc yn parhau trwy grŵp llywio newydd, goruchwylio a'r hyn a ddysgwyd yn sgil datblygu'r ganolfan newydd i oedolion ifanc yng Nghaerdydd.**<br><br>**Bydd gwaith i leihau troseddoli pobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal yn parhau trwy grŵp llywio amlasiantaeth dan arweiniad Llywodraeth Cymru.**<br><br>**Byddwn yn corffori dysgu ac arfer o'r Glasbrint Cyfiawnder Menywod i sicrhau pontio sy'n ystyriol o drawma ar gyfer pobl ifanc sy'n symud o Gyfiawnder Ieuenctid i wasanaethau oedolion, gan ddefnyddio arfer gorau wrth ddarparu a rhannu gwybodaeth er mwyn gwella canlyniadau i oedolion ifanc.** |

## Gwaith mapio ymyraethau a gynigir i gyflawnwyr troseddau rhywiol yng Nghymru

- Rydym yn deall yr ymyraethau a gynigir i gyflawnwyr troseddau rhywiol a meysydd rydym am eu datblygu

  Cwmpasodd y Bwrdd yr ymyraethau a gwasanaethau a ddarperir i bobl sydd wedi cyflawni troseddau rhywiol ledled Cymru, gan gynnwys gwasanaethau i blant a phobl ifanc sy'n dangos ymddygiad rhywiol niweidiol. Mae'r canlyniadau'n dangos bod peth wmbreth o brosesau ymyrraeth a thriniaeth ar gael yng Nghymru, ond y byddai'n fanteisiol i ni ymchwilio ymhellach i ddulliau ymyrraeth ac atal cynnar. Rhoddwyd y canlyniadau i'r tîm Glasbrint VAWDASV yng Nghymru, sy'n cynnwys cyfiawnder troseddol a phartneriaid datganoledig, er mwyn iddynt eu hystyried gydag ymateb system gyfan.

## Adolygu'r tirlun troseddu ledled Cymru

- Mae gennym ddarlun o anghenion a'r hyn sy'n ysgogi ymddygiad troseddol ledled Cymru, a byddwn yn ei ddefnyddio i wella ein hymateb.

  Cydnabu'r Bwrdd bod llawer o waith wedi cael ei wneud yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf i leihau ail droseddu; yn arbennig y fframwaith a dull cydgysylltiedig y Glasbrint ar fenywod a phobl ifanc. Gan hynny, cytunodd y Bwrdd i gynnal adolygiad i ganfod:

  - Beth yw anghenion pobl sydd wedi troseddu ledled Cymru, a all ddylanwadu ar ymddygiad troseddol neu arwain at ymddygiad troseddol?
  - A yw'r gwasanaethau cywir ar waith yn lleol ac yn genedlaethol i ddiwallu eu hanghenion?
  - Ydy'r gwaith rydym yn ei wneud trwy asiantaethau unigol a gwaith partner yn gydgysylltiedig?

  Gwnaeth yr adolygiad sawl argymhelliad gan gynnwys creu Tasglu i roi'r argymhellion ar waith, a sefydlwyd ym mis Ionawr 2023. Bydd Byrddau Lleol yn datblygu canfyddiadau'r adolygiad ac yn llunio asesiad manwl o anghenion a gwasanaethau, adolygu dulliau comisiynu presennol o gyllido gwasanaethau i roi sylw i droseddu a manteisio i'r eithaf ar gydweithio a chomisiynu ar y cyd. Bydd rhyngwyneb yn cael ei greu rhwng timau rheoli troseddau ieuenctid a Byrddau Lleol i sicrhau eu bod yn cefnogi ei gilydd i atal a lleihau ymddygiad troseddol. Bydd y Bwrdd yn parhau i gyflawni yn unol â'r argymhellion trwy gydol 2023-2024, a bydd y canlyniadau'n cael eu cyhoeddi yn adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf.

# Ymyrraeth ac Atal Cynnar

Gwnaethom ganolbwyntio ar bedwar maes cyflawni, gan ddatblygu'r syniadau a'r gwaith a ddechreuwyd gennym yn 2021-2022.

## Ymgorffori ymyrraeth ac atal cynnar fel blaenoriaeth ledled Cymru

- Byddwn yn sicrhau bod ymyrraeth ac atal cynnar yn rhan o bob blaenoriaeth

  Gwnaethom ofyn i ni ein hunain y llynedd 'beth sy'n gweithio o ran rhoi sylw i'r hyn sy'n ysgogi troseddu?'. Cadarnhaodd canfyddiadau ein hadroddiad yr angen am ddull traws-lywodraethol ar draws Cymru gyfan o atal trosedd a niwed cysylltiedig. Rydym yn cydnabod bod hon yn uchelgais gymhleth ac amlweddog. Felly, wrth i ni barhau i weithio mewn partneriaethau ledled Cymru i gyflawni'r uchelgais hon, rydym yn parhau i sicrhau bod ymyrraeth ac atal cynnar yn rhan o feysydd polisi allweddol ledled Cymru. Enghraifft o hyn yw'r ffocws ar ymyrraeth ac atal cynnar yn Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Llywodraeth Cymru a defnyddio dull cydweithredol.

Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru
Criminal Justice in Wales

## Ymchwilio i'r ymyraethau a dulliau sy'n gweithio o ran rhoi sylw i'r hyn sy'n ysgogi ymddygiad troseddol a'u datblygu ledled Cymru

- Rydym wedi creu darlun o ba ymyraethau sy'n gweithio ac yn galluogi pobl i fyw bywydau rhydd rhag trosedd
  Eleni, dechreuwyd ar gam dau'r amcan hwn. Defnyddiodd ymchwilwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru'r sail dystiolaeth a gasglwyd y llynedd i weld a oedd unrhyw rai o'r ymyraethau'n dangos arwyddion y gellid datblygu'r gwaith a'i ddarparu ledled Cymru i roi sylw ehangach i'r hyn sy'n ysgogi ymddygiad troseddol. Yn ail, dadansoddodd yr ymchwilwyr y dystiolaeth i ganfod unrhyw fylchau mewn darpariaeth er mwyn i'r Bwrdd a'r Byrddau Lleol edrych arnynt a rhoi sylw iddynt. Mae ymchwilwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi canfod nifer o raglenni a phrosiectau addawol a fyddai'n elwa ar werthuso pellach cyn cael eu datblygu ymhellach a chyflwynwyd y canfyddiadau hyn i'r Bwrdd ym mis Mawrth 2023 i gael eu cymeradwyo a'u symud ymlaen trwy raglen waith 2023-2024 y Bwrdd.

## Gwella ein hymateb i Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a thrawma ar draws y System Cyfiawnder Troseddol

- Rydym wedi nodi meysydd y gall sefydliadau cyfiawnder troseddol eu mabwysiadu er mwyn bod yn ystyriol o drawma.
  Gan ddatblygu'r gwaith a wnaed trwy gyfrwng y Rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd yng Nghymru roeddem eisiau adolygu'r hyn a oedd yn cael ei ddarparu o hyd ar draws yr holl sefydliadau cyfiawnder troseddol yng Nghymru;  a deall a oes mwy y gallwn ei wneud i weithio tuag at system cyfiawnder troseddol sy'n ystyriol o drawma. Cwblhaodd ymchwilwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru'r adolygiad hwn yn rhan o'r adolygiad 'yr hyn sy'n gweithio' a nodir uchod, a bydd yr argymhellion yn llywio'r hyn y byddwn yn ei ddarparu yn rhaglen waith 2023-2024 y Bwrdd. Nododd yr adolygiad bod gwaith cadarnhaol yn parhau yn y pedwar ardal heddlu a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi, ond bod angen cysondeb cenedlaethol o ran ymgorffori a chynnal Fframwaith Trawma Cenedlaethol Cymru. Yn dilyn canlyniadau'r adolygiad hwn, roeddem eisiau manteisio i'r eithaf ar y cyfle a gafwyd trwy gyfrwng Fframwaith Cymru sy'n Ystyriol o Drawma Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae Heddlu De Cymru, Heddlu Gogledd Cymru a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi wedi cytuno i fod yn rhan o gynllun braenaru. Yn ystod 2023 byddant yn gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddefnyddio'r fframwaith a phrofi pa mor ystyriol o drawma ydynt a beth mwy y gallant ei wneud. Rydym yn edrych ymlaen at rannu'r hyn rydym wedi ei ganfod a'r hyn rydym wedi ei wneud yn ein hadroddiad y flwyddyn nesaf.

## Deall niwroamrywiaeth yn y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru, ymysg menywod yn benodol

Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru
Criminal Justice in Wales

- Byddwn yn cynnal ymchwil yn ystod 2023 i ddeall cyffredinrwydd niwroamrywiaeth ymysg menywod yn y system cyfiawnder troseddol

  Sicrhaodd y Bwrdd gyllid ar gyfer ymchwil pellach i gyffredinrwydd niwroamrywiaeth ymysg menywod yn y system cyfiawnder troseddol. Bydd y gwaith yn cael ei gyflawni trwy'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod a bydd y Bwrdd yn derbyn adroddiadau cynnydd yn ystod 2023. Byddwn yn adrodd ar ganlyniadau'r ymchwil hwn yn adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf.

## Dull gweithredu un gwasanaeth cyhoeddus tuag at Gydraddoldeb Hil

Eleni gwnaethom barhau i ddatblygu'r gwaith a ddechreuwyd yn 2021-2022 a chanolbwyntio ar ambell i amcan allweddol a cheir crynodeb o gynnydd isod.

**Gorffen Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol Cymru a fydd yn darparu'r fframwaith ar gyfer cyflawni newid systematig yng Nghymru, a'i roi ar waith.**

- Rydym wedi cyhoeddi ein Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol Cymru

  Ar 8fed Medi 2020 roeddem yn falch i lansio a chyhoeddi ein Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol Cymru sy'n amlinellu saith ymrwymiad ar y cyd y bydd pob sefydliad cyfiawnder troseddol yn cyflawni yn eu herbyn. Yn bwysig, mae'r cynllun yn gweithio ochr yn ochr â Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru fel ymateb un gwasanaeth cyhoeddus i roi sylw i hiliaeth yng Nghymru. Er mwyn cyflawni yn erbyn y saith ymrwymiad, mae'r cynllun cyflawni cyntaf sy'n cynnwys y cyfnod 2023-2025 wedi cael ei ddatblygu. Byddwn yn adrodd ar gynnydd a meysydd gwaith pellach yn flynyddol.

Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru
**Criminal Justice in Wales**



## Ymwreiddio Panel Goruchwylio a Chynghori Annibynnol ar Hil Cyfiawnder Troseddol Cymru

- Rydym wedi sefydlu Panel Goruchwylio a Chynghori Annibynnol
  Lansiwyd y Panel Goruchwylio a Chynghori Annibynnol, sy'n cynnwys 12 o bobl o gefndiroedd amrywiol gydag ystod o arbenigedd a phrofiad o'r system cyfiawnder troseddol ac anghyfiawnder hiliol ledled Cymru, ar yr un pryd a'r Cynllun Gweithredu. Bydd y Panel yn sicrhau ein bod yn meithrin ymddiriedaeth ymysg pobl ethnig leiafrifol ac yn gwella tryloywder. Bydd y Panel hefyd yn ein helpu ni i wirio a phrofi a yw'r gwaith rydym yn ei wneud yn arwain at newid go iawn mewn cymunedau a sicrhau bod yr holl waith rydym yn ei wneud yn cael ei ysgogi a'i lywio gan bobl ethnig leiafrifol yng Nghymru.

## Datblygu dangosfwrdd i ganfod a monitro cymesuredd a chynrychiolaeth ar draws y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru, a'i roi ar waith.

- Rydym wedi datblygu dangosfwrdd anghyfartaledd hil y byddwn yn ei ddatblygu
  Rydym wedi datblygu dangosfwrdd dechreuol. Mae hwn yn hollbwysig i wella tryloywder ynghylch cynrychiolaeth pobl o leiafrifoedd ethnig yn y gweithlu ar draws y system cyfiawnder troseddol ac i adnabod ac archwilio anghyfartaledd ac anghymesuredd mewn canlyniadau yn y system i bobl o leiafrifoedd ethnig. Mae datblygu, gweithredu a defnyddio'r dangosfwrdd yn flaenoriaeth ar gyfer 2023-2024.

## Rhoi fframwaith cymhwysedd diwylliannol a safonau gofynnol ar gyfer gweithlu cynrychioliadol ar waith

- Byddwn yn rhoi prawf ar ein fframwaith cymhwysedd diwylliannol yn ystod gwanwyn 2023
  Mae fframwaith cymhwysedd diwylliannol wedi cael ei ddatblygu a bydd yn cael ei roi ar brawf yn y gwanwyn a'i gyhoeddi yn yr haf 2023. Bydd y fframwaith yn caniatáu i sefydliadau cyfiawnder troseddol feincnodi eu hagweddau at ddenu, recriwtio a chadw pobl o gefndiroedd ethnig leiafrifol yn ogystal â sicrhau bod yr holl staff yn gymwys o ran diwylliant a hil.

## Ein huchelgeisiau ar gyfer 2023-2024

Mae'r Bwrdd wedi parhau i ddysgu gwersi yn ystod 2022-2023 gan gynnwys:

- Cryfhau cyfathrebu a chysylltiadau gyda phartneriaid - rydym yn cydnabod ein bod wedi gwneud cynnydd yn y maes hwn ar lefel genedlaethol, ond rhaid i ni barhau i fyfyrio ar y goliau a'r seilwaith rydym yn eu rhannu fel ein bod yn manteisio i'r eithaf, yn genedlaethol ac yn lleol, ar gyfleoedd i gydweithio ar y materion rydym yn eu rhannu ac osgoi dyblygu.
- Canolbwyntio ar wneud ychydig o bethau yn dda - rydym wedi cyflawni llawer iawn eleni, fel yr amlinellir uchod. Rydym yn priodoli hyn i'r ffaith ein bod wedi mynd ati i ddewis rhai pethau allweddol yr oedd pawb yn gallu cyfrannu atynt er mwyn cyflawni canlyniadau effeithiol.
- Parhau i ganolbwyntio ar ddata a thystiolaeth gadarn - rydym wedi ategu'r hyn a ddysgwyd yn 2021-2022, ac yn ystod 2022-2023 rydym wedi parhau i ddatblygu data perfformiad cysylltiedig â'n hamcanion er mwyn dangos sut rydym yn gwneud gwahaniaeth a'r hyn y mae angen i ni ganolbwyntio arno yn y dyfodol. Caiff hyn ei ddatblygu ymhellach yn ystod 2023-2024.

Mae'r gwersi hyn, ochr yn ochr â data, tystiolaeth a pholisïau cyfiawnder troseddol, wedi helpu i lunio'r hyn rydym am ganolbwyntio arno yn 2023-2024 sy'n llywio rhaglen waith newydd ar gyfer Cyfiawnder Troseddol Cymru fel y dangosir isod.